# Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

## 25AIN MEHEFIN, 2015

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd T. Theophilus (Cadeirydd)**

**Y Cynghorwyr: T. Bowen, J.M. Charles, A. Davies, T. Davies, P.M. Edwards, J.K. Howell, I.J. Jackson, H.I. Jones, P.E.M. Jones, M.K. Thomas, D.E. Williams a J.S. Williams.**

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

**Mr J. Power – Uwch-swyddog Trwyddedu**

**Mr M. Heath - Swyddog Trwyddedu**

**Mr A. Evans – Cyfreithiwr Cynorthwyol**

**Mrs M. Evans Thomas – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd**

**(Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10.00 a.m. – 10.20 a.m.)**

### 1. YMDDIHEURIADAU A MATERION ERAILL

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. J. R Llewellyn a J. Thomas, a chan Mr M. Price, cynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorwyr J.M. Charles a P.M. Edwards i'w cyfarfod cyntaf, yn sgil cael eu penodi'n ddiweddar i wasanaethu ar y Pwyllgor. Yn ogystal diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd L.D. Evans, a fu'n aelod o'r Pwyllgor tan fis Mai eleni, am ei chyfraniad at waith y Pwyllgor a bu'n ei llongyfarch ar gael ei phenodi'n Aelod o'r Bwrdd Gweithredol.

### 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| I.J. Jackson | 3 – Cais am Adnewyddu Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat – Mr William James Hedley Bennett | Adnabod yr ymgeisydd. |
| J.S. Willliams | 5 – Cais am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat – Mr Arthur Raymond Lewis | Adnabod yr ymgeisydd. |

### 3. CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT – MR WILLIAM JAMES HEDLEY BENNETT

[Sylwer: Gan ei fod wedi datgan buddiant personol yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd I.J. Jackson y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

Dywedodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wrth y Pwyllgor fod cais wedi dod i law gan Mr William James Hedley Bennett o 5 Heol Llanfair, Llanymddyfri am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Bennett yn 70 oed, a bod Amod 25 o Amodau'r Cyngor mewn perthynas â Thrwyddedau Gyrru Deuol ar gyfer Cerbydau Hacnai/Hurio Preifat yn datgan "Mae'n rhaid i'r gyrrwr fod yn un ar hugain oed o leiaf ac mae'n rhaid iddo beidio â bod yn hŷn na saith deg oed".

Roedd Mr Bennett wedi cyflwyno tystysgrif feddygol oedd yn cadarnhau ei fod yn iach i yrru Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Ar hynny,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cais Mr William James Hedley Bennett am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat yn cael ei ganiatáu.**

**4. CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT – MR IAN BARRIE VINSON**

Dywedodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wrth y Pwyllgor fod cais wedi dod i law gan Mr Ian Barrie Vinson o 38 Maesgwern, y Tymbl, Llanelli am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Vinson yn 70 oed, a bod Amod 25 o Amodau'r Cyngor mewn perthynas â Thrwyddedau Gyrru Deuol ar gyfer Cerbydau Hacnai/Hurio Preifat yn datgan "Mae'n rhaid i'r gyrrwr fod yn un ar hugain oed o leiaf ac mae'n rhaid iddo beidio â bod yn hŷn na saith deg oed".

Roedd Mr Vinson wedi cyflwyno tystysgrif feddygol oedd yn cadarnhau ei fod yn iach i yrru Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Ar hynny,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cais Mr Ian Barrie Vinson am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat yn cael ei ganiatáu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR ARTHUR RAYMOND LEWIS**

[Sylwer: Gan ei bod wedi datgan buddiant personol yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd J.S. Williams y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

Dywedodd yr Uwch-Swyddog Trwyddedu wrth y Pwyllgor fod cais wedi dod i law gan Mr Arthur Raymond Lewis o 19 Y Drim, Pont-henri am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Lewis yn 73 oed, a bod Amod 25 o Amodau'r Cyngor mewn perthynas â Thrwyddedau Gyrru Deuol ar gyfer Cerbydau Hacnai/Hurio Preifat yn datgan "Mae'n rhaid i'r gyrrwr fod yn un ar hugain oed o leiaf ac mae'n rhaid iddo/iddi beidio â bod yn hŷn na saith deg oed".

Roedd Mr Lewis wedi cyflwyno tystysgrif feddygol oedd yn cadarnhau ei fod yn iach i yrru Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Ar hynny,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cais Mr Arthur Raymond Lewis am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat yn cael ei ganiatáu.**

**6. AELODAETH YR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2015/16**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddai fanylion aelodaeth arfaethedig yr Is-bwyllgorau Trwyddedu am flwyddyn y cyngor 2015/16.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y byddai aelodaeth yr Is-bwyllgorau Trwyddedu am flwyddyn y cyngor 2015/16 fel a ganlyn:-**

**Is-bwyllgor Trwyddedu "A"**

Y Cynghorwyr P.M. Edwards, H.I. Jones, J. Thomas, M.K. Thomas a D.E. Williams.

**Is-bwyllgor Trwyddedu "B"**

Y Cynghorwyr A. Davies, T. Bowen, P.E.M. Jones, T. Theophilus a J.S. Williams.

**Is-bwyllgor Trwyddedu "C"**

Y Cynghorwyr J.M. Charles, T. Davies, J.K. Howell, I.J. Jackson a D.J.R. Llewellyn.

**7. PENODI CADEIRYDDION YR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2015/16**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr enwebiadau a oedd wedi dod i law am Gadeiryddion yr Is-bwyllgorau Trwyddedu am flwyddyn y cyngor 2015/16 a

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**7.1. Bod y Cynghorydd H. I. Jones yn cael ei benodi'n Gadeirydd Is-bwyllgor Trwyddedu “A” am flwyddyn y cyngor 2015/16;**

**7.2. Bod y Cynghorydd A. Davies yn cael ei benodi'n Gadeirydd Is-bwyllgor Trwyddedu "B" am flwyddyn y cyngor 2015/16;**

**7.3. Bod y Cynghorydd T. Davies yn cael ei benodi'n Gadeirydd Is-bwyllgor Trwyddedu "C" am flwyddyn y cyngor 2015/16.**

**8. IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" - 14EG MAI 2015**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod Is-Bwyllgor Trwyddedu "B" a oedd wedi ei gynnal ar 14eg Mai, 2015 yn gofnod cywir.**

**9. Y PWYLLGOR TRWYDDEDU – 12FED MAI, 2015**

## Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

## 25AIN MEHEFIN, 2015

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a oedd wedi ei gynnal ar 12fed Mai, 2015 yn gofnod cywir.**

**LLOFNODWYD: …………………………………**

**Y DYDDIAD: ………………………………….**